

GORCHMYNION RHYDDHAD O DDYLED

Yr hall ffeithiau a sut i wneud cais



Os ydych yn cael trafferth gyda dyled efallai y gallwch wneud cais am Orchymyn Rhyddhau o Ddyled (Debt Relief Order - DRO) i helpu i reoli'r sefyllfa.

Os ydych yn byw yn yr Alban lle nad yw'r DROs yn berthnasol, cysylltwch â'n [Gwasanaeth Cyngor ac Arweiniad Ariannol](#) i gael gwybodaeth am opsiynau ar gyfer delio â'ch dyledion.

BETH YW GORCHMYN RHYDDHAU O DDYLED?

Mae DRO yn ddatrysiaid ansolfedd ffurfiol i unigolion ac mae'n caniatáu i chi 'ddileu' dyledion sydd wedi'u cynnwys yn y cais. Mae DRO yn para oddeutu 12 mis a chedwir manylion ar y Gofrestr Ansolfedd am gyfanswm o 15 mis. Gan fod hwn yn fesur ffurfiol, bydd cais yn effeithio ar eich statws credyd.

Cofiwch, gallwch hefyd wneud cais am seibiant drwy'r Cynllun Seibiant Dyledion, sy'n rhoi amser i chi gael cyngor ar eich dyledion a'ch datrysiaidau. Bydd hyn yn eich diogelu rhag mwyafrif o fathau o orfodaeth ac yn atal credydwy'r rhag ychwanegu llog a thaliadau am 60 diwrnod wrth i chi gyfrifo'r camau nesaf gyda'ch cynghorydd.

SUT MAE'N GWEITHIO?

Mae DRO yn creu 'moratoriwm' sy'n atal credydwy'r rhag cymryd unrhyw gamau yn erbyn yr ymgeisydd tra bo'r DRO ar waith. Mae'r moratoriwm yn para am 12 mis ac mae'r holl ddyledion sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cael eu dileu pan ddaw'r DRO i ben a bod yr ymgeisydd yn cael ei ryddhau.

Gallwch dim ond gwneud cais am DRO drwy 'ganolwr cymeradwyedig', sy'n gynghorydd arbenigol sydd wedi'i hyfforddi i'ch helpu drwy'r broses o wneud cais a chyflwyno'ch cais. Bydd eich cynghorydd yn gallu rhoi cyngor i chi ynghylch a ydych yn gymwys i gael DRO ac ystyried a oes unrhyw opsiynau addas eraill ar gyfer eich sefyllfa.

Anfonir y cais i swyddfa'r Derbynydd Swyddogol drwy system ar-lein a gyflwynir gan eich cynghorydd ac sy'n cael ei drin gan yr Uned Gorchymyn Rhyddhau o Ddyledion, a fydd naill ai'n derbyn neu'n gwrthod eich cais. Os caiff eich cais ei gymeradwyo, bydd cyfyngiadau mewn lle yn ystod y cyfnod fod y DRO yn bresennol.

Pwy sy'n gymwys i gael dro?

Bydd angen bodloni y rheolau canlynol i fod yn gymwys:

- Byddwch yn unigolyn (ni allwch wneud cais ar y cyd â pherson arall)
- Yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon (neu wedi byw neu redeg busnes yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn ystod y tair blynedd diwethaf)
- Bod â chyfanswm dyledion o £50,000 neu lai ar adeg eich cais
- Bod ag asedau o £2,000 neu lai (gan gynnwys rhai pensiynau)
- Heb gar neu feic modur gwerth £4,000 (£2,000 mewn YG) neu fwy
- Bod ag incwm gwario o lai na £75 y mis
- Heb gael DRO yn y chwe blynedd diwethaf
- Ddim ar hyn o bryd mewn IVA neu eisoes yn fethdalwr
- Peidio â bod yn berchennog tŷ

DYMA'R PRIF GYFYNGIADAU:

- Rhaid i chi beidio â chymryd credyd o £500 neu fwy heb ddweud wrth y benthyciwr fod gennych DRO.
- Ni allwch fod yn gysylltiedig â hyrwyddo, rheoli na ffurfio cwmni cyfyngedig, na gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni heb gael caniatâd gan y llys.
- Ni allwch redeg busnes mewn enw gwahanol heb ddweud wrth bawb eich bod yn gwneud busnes gyda yr enw a ddefnyddiwyd gennych ar gyfer eich DRO.
- Ni allwch ddal swyddi cyhoeddus penodol.
- Ni allwch wneud cais am DRO eto am chwe blynedd.

Sut i wneud cais?

Dim ond drwy ganolwr cymeradwyedig y gellir gwneud cais am DRO. Bydd gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau mawr sy'n rhoi cyngor ariannol gynghorwyr sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig y gwasanaeth hwn. Bydd angen i chi roi gwybodaeth amdanoch chi eich hun, eich dyledion a'ch asedau i'ch cynghorydd.

Bydd angen iddynt gwblhau rhai gwiriadau ychwanegol, gan gynnwys gwiriadau credyd, a rhywfaint o werth sylfaenol o asedau. Codir ffi o £90 am gyflwyno cais a fydd angen cael ei dalu'n ôl yn llawn' cyn i'r DRO gael ei gymeradwyo.

Dyledion y gellir eu cynnwys yn eich DRO

Ni allwch wneud cais os oes gennych ddyledion o dros £50,000 ond gellir cynnwys y rhan fwyaf o ddyledion. Efallai y bydd angen cyngor pellach arnoch ar rai dyledion, fel cytundebau HP ac ôl-ddyledion rhent, gan fod rheolau i'w hystyried cyn gwneud cais. Os nad ydych yn cynnwys dyled yn eich DRO ni fydd yn dod o dan unrhyw un o'r diogeliadau ac ni fydd yn cael ei dileu ar y diwedd.

Dyledion Cymwys

- Ôl-ddyledion rhent
- Ôl-ddyledion nwy a thrydan
- Ôl-ddyledion ffôn (os yw'n hanfodol)
- Y dreth gyngor
- Ôl-ddyledion HP ac Ôl-ddyledion Gwerthiant Amodol
- Ôl-ddyledion dŵr
- Cardiau credyd a siop
- Gorddrafftiau a benthyciadau banc
- Dyledion personol
- Dirwyon parcio
- Diffygion morgais
- Gordaliadau budd-daliadau (ac eithrio twyll)

Dyledion sydd wedi'u heithrio

- Dirwyon llys ynadon
- Taliad cynnal a chadw / Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) / taliad Gwasanaeth Cynhالياeth Plant (CMS) ac ôl-ddyledion
- Benthyciadau myfyrwyr
- Benthyciadau cyllidebu ac argyfwng
- Arian sy'n ddyledus o dan orchymyn atafaelu troseddol
- Dyledion sy'n deillio o hawliadau am anafiadau personol

SUT BYDD DRO YN EFFEITHIO ARNAF I?

Os caiff eich cais DRO ei gymeradwyo, bydd cyfyngiadau mewn lle:

- Efallai y bydd gennych Ymgymeriad/Gorchymyn Cyfyngu ar Ryddhau o Ddyledion a osodir arnoch a all gynyddu'r amser y mae'n rhaid i chi gadw at gyfyngiadau rhwng 2 a 15 mlynedd.
- Gall eich cyfrif banc gael ei rewi.
- Bydd y DRO yn cael ei gofnodi ar eich ffeil gredyd.
- Bydd y DRO yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Ansoffedd Unigol drwy gydol y gorchymyn ynghyd â 3 mis ychwanegol.
- Gallai hyn effeithio ar eich swydd.
- Gallai hyn effeithio ar eich tenantiaeth.

Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi ddweud wrth y derbynnydd swyddogol os bydd eich amgylchiadau'n newid ar ôl i chi wneud cais am DRO, a rhoi'r wybodaeth iddynt am eich cyllid os byddant yn gofyn amdano.

Os ydych yn derbyn cyfandaliad neu'n cael codiad cyflog, dylech roi gwybod iddynt gan eu bod yn gallu dirymu gorchymyn, a hyd yn oed gymryd camau troseddol/sifil yn eich erbyn os na fyddwch yn gwneud hynny.

Gall unrhyw newidiadau sy'n golygu nad ydych bellach yn bodloni'r meini prawf hefyd olygu bod eich DRO yn cael ei ddirymu.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech ystyried gwneud cais am Orchymyn Rhyddhau o Ddyled, gallwch wneud cais nawr a siarad â'n cyngorwyr ariannol, neu ffonio ein llinell gymorth ar 0800 056 2424.